GRANTIAU YMCHWIL CYMORTH 2007-8
Codi eich Llais RG 1223

Adroddiad Terfynol
Crynodeb Gweithredol

Prosiect ymchwil yw 'Codi eich Llais' a gynhaliwyd ar y cyd gan Llywodraethwyr Cymru a Markit Training and Consultancy Ltd.

1. CYFLWYNIAD

Tri prif nod yr ymchwil oedd:

- Sefydlu ffyrdd y gallai pobl ifanc, trwy eu cyfranogiad ar gynghorau ysgol ac/neu fel disgybl lywodraethwyr cyswllt, gymryd rhan a theimlo'n werthfawr o fewn prosesau gwneud penderfyniadau eu hysgolion.

- Ymchwilio i'r cyfleoedd a'r gefnogaeth oedd yn bodoli i annog cyfranogiad pobl ifanc mewn llywodraethu ysgolion.

- Edrych ar y rhwystrau allai rwystro cyfranogiad pobl ifanc mewn llywodraethu ysgolion.

Roedd y pynciau penodol a ystyriwyd yn cynnwys:

- Canfyddiadau pobl ifanc ynglŷn â chyfranogiad parhaus a gweithredol pobl ifanc yn y gwaith o lywodraethu eu hysgolion.

- Y rhwystrau/sialensau all fodoli wrth i bobl ifanc gymryd rhan mewn llywodraethu ysgolion tra'u bod yn yr ysgol ac wedi hynny

- Y cyfleoedd sydd yn bodoli ar hyn o bryd i ddatblygu cyfranogiad pobl ifanc mewn llywodraethu ysgolion.

- Nodi anghenion cefnogi pobl ifanc yn y dyfodol i hyrwyddo eu cyfranogiad gweithredol mewn llywodraethu eu hysgolion.

2. METHODOLEG

2.1 Cam 1 – Ymchwil Cwmpasu

Cynhaliwyd ymchwil desg ar y cychwyn i sefydlu'r sefyllfa gyfredol o ran cyfranogiad pobl ifanc trwy rôl Disgybl Lywodraethwr Cyswllt (DLC) yng Nghymru.

2.2 Cam 2 – Gwaith Maes

Datblygwyd y model ymgynghori i gasglu adborth ansoddol trwy gyfrwng grwpiau ffocws o hyd at ddeg person ifanc oedd yn cyfranogi neu nad oeddent yn cyfranogi ar hyn o bryd.

- Yn dilyn ystyriaeth o'r ffactorau cymdeithasol-demograffaidd, diwylliannol a daearyddol, detholwyd grŵp cynrychioliadol o chwe ysgol uwchradd ar draws Caerdydd.

Y bwriad hefyd oedd ymgynghori gyda phobl ifanc o bob ysgol uwchradd trwy gyfrwng Fforwm Myfyrwyr Ysgolion Uwchradd Caerdydd, ond gohiriwyd y sesiwn hon oherwydd newidiadau staffio. Cwblhawyd cyfweliadau wyneb yn wyneb neu ar y ffôn gydag athrawon, llywodraethwyr, gwasanaeth cefnogi llywodraethwyr AALl Caerdydd a Chymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd.

2.3 Cam 3 – Dadansoddi ac Adrodd

Yn dilyn dadansoddiad o'r adborth, nodwyd canfyddiadau allweddol a datblygwyd argymhellion allweddol ar gyfer cefnogaeth i gyfranogiad pobl ifanc yn y gwaith o lywodraethu eu hysgolion yn y dyfodol. Hefyd bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i greu cyfleoedd i gyflwyno'r adroddiad i grwpiau rhan ddeiliaid allweddol:

- Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr Caerdydd
- Staff Cefnogi Llywodraethwyr Cymru Gyfan ADEW
- Adran Rheoli Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad (llywodraethu) a thimau YALO
- Pwyllgor Rheoli neu gynhadledd Llywodraethwyr Cymru

3. YMCHWIL CWMPASU

Roedd cyfnod cychwynnol yr ymchwil yn canolbwyntio ar y dogfennau canlynol;

1. ***Canllaw i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgolion (Cylchlythyr Rhif: 42/2006)*** sydd yn rhoi arweiniad i benaethiaid a chyrff llywodraethu ar sefydlu a gweithredu Cynghorau Ysgolion a threfniadau ar gyfer disgybl lywodraethwyr cyswllt mewn ysgolion uwchradd

2. Roedd adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008 '***Dweud eich Dweud – pobl ifanc, cyfranogi a chynghorau ysgolion'*** yn rhoi datganiad safbwynt ar i ba raddau y mae ysgolion uwchradd ar hyn o bryd yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005 a'r canllaw dilynol a gyhoeddwyd yn 2006

3. Adroddiad a baratowyd gan Sefydliad Dinasyddiaeth yn Lloegr o'r enw '***I Was A Teenage Governor – pupil governorship, initial thoughts and possibilities.'***

Mae dyfyniadau o'r uchod ar gael yn yr adroddiad llawn

4. GWAITH MAES AC ADBORTH

Cynhaliwyd gwaith maes fel yr amlinellwyd yn 2.2:

Mae adborth wedi'i grynhoi gan bob un o'r grwpiau targed yr ymgynghorwyd â nhw ar gael isod.

4.1 Aelodau Cynghorau Ysgolion

Mae amrywiol strwythurau mewn ysgolion, fel cynghorau blwyddyn, cynghorau ysgol, cynghorau chweched dosbarth a fforymau dysgu yn chwarae rôl allweddol mewn cefnogi agenda cyfranogiad disgyblion. Mae'r amrediad o faterion a drafodir mewn fforymau o'r fath yn amrywio o newidiadau i wisg ysgol i ddatblygiad cwricwlwm a'r mater arferol o doiledau ysgol.

Dywedodd y disgyblion eu bod eisiau gwneud mwy o gyfraniad i faterion fel dewis cwricwlwm, ac addysgu a dysgu.
Mae'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd cyngor ysgol yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol ond ar y cyfan maent yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor. Yn aml caiff yr agenda ei gosod yn dilyn trafodaeth gyda'r aelod cyswllt o'r staff. Mae'r modd y darperir adborth i'r corff llywodraethu ac i'w cyfoedion yn amrywio'n fawr.

> Pan ofynnwyd "*Beth mae'r term corff llywodraethu yn ei olygu i chi a phwy yw'r llywodraethwyr*?" cafwyd amrywiaeth o atebion. Mewn rhai achosion ychydig oedd yn wybyddus am y rheswm dros fodolaeth cyrff llywodraethu, ac eithrio i reoli'r ysgol a rhannu gwobrau. Roedd pobl ifanc eraill yn fwy gwybodus ac un cyffelybiaeth a gofnodwyd oedd *"Y pennaeth yw'r rheolwr, y bwrdd yw'r corff llywodraethu – yn cadw golwg ar beth sy'n digwydd."*

Cytunodd mwyafrif y disgyblion a holwyd y dylai'r corff llywodraethu gynnwys neu wrando arnynt, gan roi cyfle iddynt roi persbectif tra bod penderfyniadau'n dal i gael eu trafod.

Roedd pob ysgol a arolygwyd, ac eithrio'r ysgol arbennig, wedi cyflwyno disgybl lywodraethwyr cyswllt ond nid oedd pob un yn aelodau etholedig o gyngor yr ysgol. Cafwyd ymateb cymysg gan ddisgyblion pan ofynnwyd iddynt am eu hymwybyddiaeth o DLC ac niod oeddent yn siŵr am y broses etholiad. Roeddent yn teimlo y dylai DLC:

- Rhoi Adborth o gyfarfodydd corff llywodraethu i Gyngor yr Ysgol a chynrychioli barn y cyngor ysgol mewn cyfarfodydd corff llywodraethu
- Bod yn rhan o'r trafodaethau ar y rhan fwyaf o bynciau yr oedd y corff llywodraethu yn eu trafod ac eithrio cyllid, staffio a materion yn ymwneud â disgyblion.

Teimlai nifer o ddisgyblion y byddai'n ddefnyddiol cael sesiwn briffio ynglŷn â beth i'w ddisgwyl cyn mynd i gyfarfod corff llywodraethu .

4.2 Aelodau heb fod ar Gyngor Ysgol

Roedd gan y disgyblion a holwyd, nad oeddent yn aelodau o gyngor ysgol, ddealltwriaeth eithaf da o brosesau etholiad cyngor ysgol ond ychydig iawn o ddealltwriaeth am beth sy'n digwydd mewn cyngor ysgol, a sut yr oeddent yn derbyn adborth.
Ychydig o ddealltwriaeth oedd ganddynt am gorff llywodraethu ac eithrio dau ddisgybl oedd â rhieni yn riant lywodraethwyr. Roeddent yn cymharu'r corff llywodraethu i gyngor ysgol ar gyfer oedolion a bod ganddynt reolaeth dros gyllideb yr ysgol.

Roedd yr holl ddisgyblion yn teimlo y dylid cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y corff llywodraethu ac nad athrawon yn unig ddylai weithredu fel cyswllt i'r corff llywodraethu. Roeddent yn teimlo mai'r disgyblion hŷn, mwy profiadol yn unig a ddylai fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu. Doedd yr un ohonynt yn ymwybodol o DLC ac y gallai'r cyngor ysgol eu henwebu.

Roeddent yn meddwl ei bod yn amhriodol i DLC gymryd rhan mewn 'materion personol' am ddisgyblion ac athrawon eraill. Doedd yr un ohonynt yn teimlo bod DLC angen hyfforddiant arbennig cyn cymryd rhan ar y corff llywodraethu.

4.3 Fforwm Myfyrwyr Ysgolion Uwchradd Caerdydd

Sefydlwyd Fforwm Myfyrwyr Ysgolion Uwchradd Caerdydd yn ystod y flwyddyn academaidd 2001-02, gyda'r nod o gynnal sesiwn fforwm unwaith y tymor gyda dau enwebai o bob ysgol uwchradd. Roedd amcanion y fforwm ysgolion yn ddeublyg:

- Rhoi cyfle i staff allweddol yn yr awdurdod lleol ymgynghori gyda, gwrando ar ac ymateb i farn pobl ifanc o ysgolion ar draws y ddinas ar bob mater yn berthynol i addysg.
- Rhoi cyfle i ddisgyblion oedd yn cyfranogi o fewn eu hysgolion unigol rwydweithio gyda phobl ifanc o ysgolion ar draws y ddinas i gyfnewid syniadau a phrofiadau.

4.4 Staff Cyswllt Cyngor Ysgol

Roedd gan staff cyswllt cyngor ysgol a holwyd ymwybyddiaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ond ychydig o ddealltwriaeth am ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hawliau plant a chyfranogiad disgyblion. Roeddent yn ymwybodol bod cynghorau ysgolion a DLC yn berthynol rhywsut i'r maes polisi hwn. Roedd yr holl athrawon yn cefnogi manteision i ysgol o gael ymrwymiad i gyfranogiad disgyblion, er enghraifft cynnydd mewn ymdeimlad o fod yn rhan o'u hysgol ac o'u dysgu. Ond roeddent yn teimlo bod y cysyniad o gyfranogiad disgyblion yn dal i ddatblygu a bod angen adeiladu ymddiriedaeth a rheoli disgwyliadau o'r ddwy ochr.

Roedd adborth o'r cyngor ysgol fel pe bai'n cael ei gyfleu trwy aelodaeth y tîm arweinyddiaeth ysgol neu trwy eu rheolwr/wraig llinell, heb fawr ddim cyfranogiad gan yr athro cyswllt.

> Roedd y staff cyswllt a holwyd yn teimlo yr hoffent allu gwneud rhagor i gefnogi aelodau cynghorau ysgolion oedd yn dod yn DLC. Roedd y syniadau a awgrymwyd yn cynnwys sesiynau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac adeiladu tîm.

4.5 Penaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu

Roedd dealltwriaeth gyffredinol am yr angen i gael cyngor ysgol ond llai o wybodaeth am ganllaw yn berthynol i DLC gyda chais am ganllaw a briff pellach gan Lywodraeth y Cynulliad neu AALl. Roedd awydd i ddarganfod beth yr oedd ysgolion eraill yn ei wneud. Yn benodol roeddent yn teimlo bod cyfranogiad pobl ifanc yn:

- rhoi synnwyr o berchnogaeth o'u hysgol a'u lle oddi mewn iddi i ddisgyblion
- helpu i hyrwyddo dysgwyr annibynnol.
- Rhoi rhagor o ran i ddisgyblion yn eu haddysg a chyfle i ffurfio'u dyfodol.
- Annog staff i edrych ar ddulliau dysgu a pheidio bod ag ofn cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau am eu profiad addysgu a dysgu .

Roedd y materion sensitif a amlinellwyd yn cynnwys:

- Yr angen i reoli disgwyliadau disgyblion a llywodraethwyr yn ofalus er mwyn datblygu cyd ddealltwriaeth o bersbectif ac angen.
- Sicrhau bod canllawiau a chylch gorchwyl yn cael eu sefydlu ond nid fel rhwystrau, ac yn berthnasol i faterion cynhwysedd a chyfrinachedd.
- Yr angen i hyfforddi DLC neu rhoi briff iddynt am waith corff llywodraethu a sut y gallant ffitio'i mewn i gyfarfodydd mwy ffurfiol a strwythur pwyllgorau.
- Angen potensial i friffio llywodraethwyr am DLC a derbyn hyfforddiant ar ddulliau effeithiol o gynnwys DLC yn y broses o lywodraethu.
- Efallai bydd angen i lywodraethwyr sydd ddim yn byw neu sydd heb fod yn ymwneud â chymuned yr ysgol ddatblygu dealltwriaeth am anghenion a phrofiadau bywyd disgyblion.
- I ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig mae angen trafod y broses o gyfranogiad yn sensitif fel eu bod yn gallu cyfleu eu teimladau heb gael eu dylanwadau gan bobl nad ydynt yn eu hadnabod nac yn ymddiried ynddynt.

Teimlwyd yn gryf y byddai angen ail feddwl am weithrediadau'r corff llywodraethu e.e. amseru, lleoliad a threfn cyfarfodydd.
Roedd pawb yn cytuno y dylid caniatáu i rôl DLC ddatblygu gan fod cymaint o agweddau cadarnhaol, rhai ohonynt yn anodd i'w mesur. Teimlwyd y dyllid eu cynnwys mewn cymaint o'r trafodaethau a'r gwneud penderfyniadau ag sy'n bosibl o fewn y rheoliadau cyfredol.

4.6 Tîm Cefnogi Llywodraethwyr AALl Caerdydd

Roedd y tîm Cefnogi Llywodraethwyr yn teimlo bod nifer o rwystrau i'w goresgyn er mwyn sicrhau cynhwysiad DLC ar draws y ddinas. Roedd y rhain yn cynnwys;

- Goresgyn ansicrwydd ar y ddwy ochr
- Amseru a hygyrchedd cyfarfodydd
- Datblygu a deall rôl DLC gyda llywodraethwyr
- Adeiladu hyder yng ngraddau rôl a gallu i reoli disgwyliadau ar y ddwy ochr.
- Datblygu dealltwriaeth bod angen addasu eitemau ar yr agenda i ddiwallu anghenion DLC

Roedd teimlad cyffredinol bod DLC yn rhoi cyfle i ehangu arbenigedd corff llywodraethu a chynnig llinell uniongyrchol o adborth rhwng y disgyblion a'r llywodraethwyr.

Roedd y tîm yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol i DLC gael hyfforddiant anwytho ond nid oes angen gwahanu hyn oddi wrth yr hyfforddiant a gynigir i bob llywodraethwr newydd. Nid oes gan systemau cyfredol y tîm Cefnogi Llywodraethwyr unrhyw gofnod o DLC, pwy ydynt na pha ysgol y maent yn ei chynrychioli.

4.7 Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd

Roedd pawb oedd yn bresennol yn ymwybodol o'r gofyniad gorfodol i gael cynghorau ysgolion er bod llai o ymwybyddiaeth am ddatblygiad pellach DLC oherwydd yn bennaf cydbwysedd y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod oedd yn cynrychioli'r sector cynradd. Roedd pawb yn gytun bod cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad disgyblion yn gallu:

- Cynyddu hyder disgyblion.
- Bod persbectif gwahanol yn gallu gwneud gwahaniaeth.

Os yw'n cael ei reoli'n gywir gall cyfranogiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau fod yn brofiad cadarnhaol i gynghorau ysgolion, DLC a'r corff llywodraethu. O ran gwrando ar ac ymateb i farn disgyblion teimlwyd ei bod yn bwysig cael mecanweithiau penodol mewn ysgol e.e. llywodraethwr cyswllt cyngor ysgol.

Mynegwyd rhai materion sensitif fel:

- Rheoli disgwyliadau.
- Disgyblion/DLC yn mynychu cyfarfodydd ac yn cymryd rhan neu bod yn dyst i drafodaethau yn ymwneud â rhai materion e.e. materion staff/disgyblion a chyllid.

Ond y teimlad oedd bod cyfranogiad cadarnhaol disgyblion mewn rheolaeth eu hysgol yn fwy na'r agweddau negyddol.

5. DADANSODDIAD AC ADRODD

Yn dilyn dadansoddiad o'r adborth mae sawl casgliad wedi'i wneud a chyfres o argymhellion ar gyfer cefnogaeth a datblygiad DLC yn y dyfodol a chyfranogiad pobl ifanc mewn llywodraethu ysgolion wedi'u ffurfio.

5.1 Casgliadau

Trwy'r ymchwil a wnaethpwyd a'r adborth a dderbyniwyd llwyddwyd i ddod i gasgliadau am ddatblygiad disgybl lywodraethwyr cyswllt mewn cefnogi cyfranogiad pobl ifanc yn ysgolion Caerdydd:

Noder: mae gan y canlyniadau a amlinellir isod bersbectif cenedlaethol (c) phersbectif lleol Caerdydd (Ll)

5.1.a Mae ymwybyddiaeth o'r angen i sefydlu DLC yn amrywio ar draws y cynulleidfaoedd allweddol a holwyd.

- Mae penaethiaid yn ymwybodol o'r rheoliadau ond teimlant fod angen canllaw pellach wedi'i wahaniaethu ar gyfer pob cynulleidfa allweddol i sefydlu proses ar gyfer sefydlu rôl o fewn yr agenda cyfranogiad o fewn eu hysgol (c)
- Mae ymwybyddiaeth anghyson ymysg cadeiryddion llywodraethwyr a llywodraethwyr yn gyffredinol am reoliadau, canllaw a rôl DLC a sut y gellid ei ddefnyddio i gefnogi cyfranogiad, cynllunio strategol a chynhwysedd. (Ll)
- Mae disgyblion yn gwybod am eu rôl a'r broses etholiad yn ôl yr hyn a ddywedir wrthynt gan eu pennaeth neu gan yr athro cyswllt cyngor ysgol. (Ll)
- Mae gan staff gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr AALl ymwybyddiaeth o'r rheoliadau a'r canllaw ond ar y cyfnod cynnar hwn does ganddynt ddim gorolwg cyflawn o gyflwyniad DLC mewn ysgolion ar draws Caerdydd. (Ll)

5.1.b Roedd pob grŵp o gyfranogwyr yn teimlo bod angen cynhyrchu canllaw gwahaniaethol mwy cynhwysfawr ar gyfer pob cynulleidfa ar sefydlu a datblygu DLC (c)

5.1.c Roedd awgrym y byddai DLC a llywodraethwyr yn elwa oddi wrth sesiynau hyfforddi anwytho a chefnogi wedi'u targedu. Byddai DLC yn enwedig yn elwa oddi wrth ddealltwriaeth o ddiben a gwaith ffurfiol corff llywodraethu ysgol. Ac i lywodraethwyr, sesiwn codi ymwybyddiaeth yn amlinellu sut y gallai agweddau gweithrediadol cyfarfodydd corff llywodraethu ddod yn fwy cynhwysol ar gyfer pobl ifanc. (Ll/C)

5.1.d Byddai DLC ac yn y cyd-destun ehangach aelodau cynghorau ysgolion, elwa oddi wrth gyfleoedd rhwydweithio rheolaidd gydag eraill ar draws eu AALl a hefyd ar lefel is ranbarthol a Chymru gyfan (Ll/C)

5.1.e Un o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd natur anghyson mecanweithiau adborth rheolaidd rhwng y corff llywodraethu a'r cyngor ysgol (a vice versa) gan ddefnyddio'r DLC fel y cyfrwng. Roedd y rhan fwyaf o adborth ar sail anffurfiol neu ad hoc (Ll/C)

5.2 Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u drafftio i annog a chefnogi datblygiad cyfranogiad pobl ifanc yng Nghaerdydd ymhellach trwy eu cyfraniad ar gynghorau ysgol/disgybl lywodraethwyr cyswllt.

Noder: mae oblygiad cenedlaethol (C) a lleol Caerdydd (Ll) iddynt.

5.2.a Cais am gynhyrchu canllaw pellach (C) ar statws a datblygiad disgybl lywodraethwyr cyswllt gan Lywodraeth y Cynulliad. Dylid gwahaniaethu'r canllaw i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd allweddol:

- Pobl ifanc
- Penaethiaid ac athrawon cyswllt
- Llywodraethwyr a staff cefnogi llywodraethwyr

5.2.b Dylai'r canllaw (C) gynnwys agweddau o ddatblygu rôl DLC, cynhwysedd cyrff llywodraethu a mecanweithiau adborth. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys astudiaethau achos yn dangos ymarfer da effeithiol neu newydd.

5.2.c Defnyddio gwefan Cynghorau Ysgolion Cymru fel platfform priodol i hyrwyddo deunyddiau cefnogi i bobl ifanc sydd yn dod yn DLC (Ll)

5.2.d Datblygu a hyrwyddo cyfres o gyfleoedd rhwydweithio i DLC a chynghorau ysgolion yng Nghaerdydd. Er enghraifft gellid cysylltu DLC trwy gyfrwng Fforwm Myfyrwyr Ysgolion uwchradd Caerdydd allai ddarparu cyfle rhwydweithio gyda DLC eraill ar draws y ddinas. Gellid treialu cyfleoedd ehangach hefyd i rwydweithio trwy fideo gynadledda gyda DLC mewn AALl eraill ar draws Cymru. (Ll)

5.2.e Cynllunio a chyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer llywodraethwyr presennol ar gyfranogiad a chynhwysedd DLC o fewn gwaith cyrff llywodraethu (Ll)

5.2.f Datblygu a chynnig sesiwn hyfforddiant anwytho i DLC ar waith ac ymarfer cyrff llywodraethu (Ll/C)

5.2.g Awgrymu ffyrdd o ddarparu proses adborth ddwy ffordd yn cysylltu cynghorau ysgolion gydag ymgynghori a gwneud penderfyniadau cyrff llywodraethu (Ll/C)

5.2.h Annog Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr Caerdydd i gynnwys DLC mewn cyfathrebiadau a chefnogaeth cyrff llywodraethu fel bo'n briodol.